NEWIDIADAU I'R GYFRAITH YNGLŶN â GWEITHIO'N ANGHYFREITHLON

Mae'n ofynnol yn ôl Rhan 8 o Ddeddf Llochesu a Mewnfudo 1996 bod pob cyflogwr yn y Deyrnas Unedig yn gwneud archwiliadau sylfaenol o ddogfennau pob unigolyn y maent yn bwriadu ei gyflogi. Trwy wneud yr archwiliadau hyn, gall cyflogwyr fod yn siŵr nad ydynt yn torri'r gyfraith trwy gyflogi gweithwyr anghyfreithlon.

Ar **1 Mai 2004**, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno newidiadau i'r mathau o ddogfennau y bydd angen i chi, fel cyflogwyr yn y Deyrnas Unedig, eu harchwilio dan ran 8 er mwyn osgoi cyflogi gweithwyr anghyfreithlon. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud am dri phrif reswm:

- ei gwneud yn anos i bobl sydd heb ganiatâd i weithio yn y Deyrnas Unedig i gael gwaith trwy ddefnyddio dogfennau ffug;

- ei gwneud yn haws i chi sicrhau eich bod yn cyflogi pobl sydd â chaniatâd cyfreithlon i weithio yn y Deyrnas Unedig;

- i gryfhau rheolau'r Llywodraeth wrth ddelio gyda gweithio'n anghyfreithlon trwy ei gwneud yn haws i Wasanaeth Mewnfudo y Deyrnas Unedig gymryd camau yn erbyn cyflogwyr sydd yn fwriadol yn defnyddio llafur anghyfreithlon.

Ni fydd y newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r math o archwilio sydd eisoes yn angenrheidiol i chi ei wneud er mwyn cwrdd â'ch cyfrifoldebau yn unol â'r gyfraith. Maent wedi'u llunio fel y gall pobl sydd â'r hawl i weithio yn y wlad hon, gan gynnwys y rhai sy'n byw yn ein cymunedau o leiafrifoedd ethnig, brofi hyn yn gyflym ac yn rhwydd.

Mae canllawiau sylfaenol ar gael ar ffurf electronig ar wefan y Swyddfa Gartref a chaiff copi caled ei anfon i bob cyflogwr sydd wedi'i gofrestru ar restr PAYE Cyllid y Wlad.

Bydd y Llywodraeth yn paratoi canllawiau manylach ar gyfer cyflogwyr ar sut i gydymffurfio gyda'r gyfraith er mwyn atal gweithio'n anghyfreithlon. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys manylion technegol am y newidiadau yn rhan 8, a mwy o wybodaeth am gyflogi pobl o'r wyth gwlad sy'n ymuno â'r Undeb Ewropeaidd ar 1 Mai 2004. Bydd y canllawiau mwy cynhwysfawr hyn ar gael, yn rhad ac am ddim, o wefan y Swyddfa Gartref:

http://www.ind.homeoffice.gov.uk

Gellir cael copïau caled o'r ddogfen hon, am ddim, trwy alw **Llinell Gymorth Cyflogwyr ar 0845 010 6677**. Dylech hefyd alw Llinell Gymorth Cyflogwyr os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach am y newidiadau arfaethedig yn y gyfraith a'r hyn sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio gyda'r trefniadau newydd.